# Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

1. Mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad 'Ffioedd cymorth cyfreithiol yn y Bil Mudo Anghyfreithlon' yn nodi ein bwriad i sicrhau bod unigolion sy'n cael hysbysiad symud ymaith o dan y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon (IMA) (ei hen enw oedd y Bil Mudo Anghyfreithlon (IMB)) yn gallu cael gafael ar gymorth cyfreithiol yng nghyswllt yr hysbysiad symud ymaith. Mae hyn yn ofynnol o dan ddiwygiadau i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO) a wnaed gan yr IMA a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf 2023.

2. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sut bydd gwasanaethau cymorth cyfreithiol i bobl sy'n cael hysbysiad symud ymaith yn cael eu talu, a chynnig y Llywodraeth y dylai'r cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol a wneir yn unol ag adran 56 o'r IMA fod hyd at 15% yn uwch na'r cyfraddau fesul awr mewnfudo presennol. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar y cynnig bod y Llywodraeth yn cynnal adolygiad ôl-weithredu cyntaf o'r ffioedd o fewn dwy flynedd. Ar ben hynny, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar ragor o fesurau a fyddai'n helpu i feithrin gallu'r proffesiwn cymorth cyfreithiol i gwblhau Gwaith yr IMA ac am safbwyntiau am ein Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn pum cwestiwn a chafwyd 38 o ymatebion. Roeddem hefyd wedi cynnal pum digwyddiad bwrdd crwn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhain yn canolbwyntio ar gwestiynau'r ymgynghoriad ac yn ategu'r wybodaeth yn yr ymatebion. Rydym wedi ystyried pob ymateb yn ofalus ac mae'r ymatebion wedi helpu i gyfrannu at y camau rydym nawr yn bwriadu eu cymryd. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn datblygu pecyn ehangach o fesurau gyda'r nod o gymell a chynyddu capasiti yn y sector cymorth cyfreithiol i ddelio â gwaith yr IMA. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion llawn ein cynigion. Dyma ein cynigion yn gryno:
    a. ar gyfer Gwaith yr IMA (fel y'i diffinnir ym mharagraff 14), bydd y cyfraddau fesul awr 15% yn uwch na'r cyfraddau fesul awr presennol;
    b. bydd ffioedd yr IMA yn cael eu hadolygu o fewn dwy flynedd i'w gweithredu;
    c. bydd y Llywodraeth yn mynd ar drywydd datblygu cynigion i helpu i fynd i'r afael â baich ariannol achredu gweithwyr achos ar lefel uwch weithwyr achos i wneud gwaith cymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches. Bydd y Llywodraeth yn cyfathrebu ymhellach â darparwyr cymorth cyfreithiol mewnfudo ynghylch camau penodol a fydd yn cael eu cymryd yn nes ymlaen eleni;
    d. bydd y Llywodraeth yn talu amser teithio i ddarparwyr pan fyddant yn teithio i Ganolfannau Symud Ymaith (IRCs) ar gyfer cymorthfeydd y Cynllun Cyngor Dyletswydd Cadw (DDAS) (a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl sy'n cael eu cadw'n sy'n ddarostyngedig i'r IMA); a
    e. bydd y Llywodraeth yn caniatáu i gyngor gael ei ddarparu o bell mewn cymorthfeydd DDAS, yn ôl disgresiwn darparwyr ac yn amodol ar eu barn broffesiynol a'u rhwymedigaethau i bobl agored i niwed.